

Agenda – Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

Y Siambr – Y Senedd

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 31 Ionawr 2017

Amser y cyfarfod: 13.30

47(v3)

1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

[Gweld y Cwestiynau](#)

Cwestiwn Brys 1

I'r Gweinidog Sgiliau a Gwyddoniaeth:

Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet amlinellu'r cymorth y mae Llywodraeth Cymru yn ei roi yn dilyn cau swyddfa'r Adran Gwaith a Phensiynau yn Llanelli, gan arwain at golli 146 o swyddi?

Cwestiwn Brys 2

I'r Prif Weinidog:

Dawn Bowden (Merthyr Tudful a Rhymni): Yn dilyn cyhoeddiad Arlywydd yr Unol Daleithiau, yn gwahardd gwladolion o nifer o wledydd lle mae'r rhan fwyaf o bobl yn Fwslemiaid, rhag teithio i'r Unol Daleithiau am 90 niwrnod, pa asesiad y mae Prif Weinidog Cymru wedi'i wneud o effaith hyn ar Fwslemiaid yng Nghymru sydd â chenedligrwydd deuol?



2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

(30 munud)

[Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes](#)

3 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth

Leol: Diwygio Llywodraeth Leol

(60 munud)

4 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg: Yr Adolygiad

Hazelkorn o Addysg yng Nghymru

(45 munud)

Dogfen Ategol:

[Adolygiad o Reoleiddio a Chynnal Trosolwg o Addysg a Hyfforddiant ôl-Orfodol yng Nghymru](#)

5 Rheoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Ffioedd Cofrestru) 2017

(15 munud)

NDM6218 [Jane Hutt \(Bro Morgannwg\)](#)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o Reoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Ffioedd Cofrestru) 2017 yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a [osodwyd](#) yn y Swyddfa Gyflwyno ar 12 Rhagfyr 2016.

Dogfennau Ategol

[Rheoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg \(Ffioedd Cofrestru\) 2017](#)

[Memorandwm Esboniadol](#) (Saesneg yn unig)
[Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol](#)

6 Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 6) 2017

(15 munud)

NDM6219 [Jane Hutt \(Bro Morgannwg\)](#)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 6) 2017 yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a [osodwyd](#) yn y Swyddfa Gyflwyno ar 15 Rhagfyr 2016.

Dogfennau Ategol

[Rheoliadau Safonau'r Gymraeg \(Rhif 6\) 2017](#)

[Memorandwm Esboniadol](#)

[Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol](#)

[Adroddiad y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu](#)

7 Dadl: Yr Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb 2015–2016, gan gynnwys Adroddiad Interim Gweinidogion Cymru ar Gydraddoldeb 2016

(60 munud)

NDM6217 [Jane Hutt \(Bro Morgannwg\)](#)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod y cynnydd sydd wedi'i wneud mewn partneriaeth â chyrff cyhoeddus eraill a'r trydydd sector i hybu mwy o gydraddoldeb yng Nghymru, fel y dangosir yn yr Adroddiad Blynyddol am Gydraddoldeb 2015–2016 ac Adroddiad Interim Gweinidogion Cymru am Gydraddoldeb 2016, a

2. Yn aildatgan ymrwymiad y Cynulliad i wneud Cymru'n wlad decach a mwy cyfartal.

Dogfen Ategol

[Adroddiad Blynyddol am Gydraddoldeb 2015–2016 ac Adroddiad Interim Gweinidogion Cymru am Gydraddoldeb 2016](#)

Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:

Gwelliant 1. [Paul Davies \(Preseli Sir Benfro\)](#):

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i egluro'r cynnydd a wnaed mewn perthynas â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Cod Ymarfer Rhan 2, sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol weithio mewn partneriaeth â phobl i gydgyhyrchu atebion i fodloni eu canlyniadau llesiant personol.

['Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant \(Cymru\) 2014, Cod Ymarfer Rhan 2'](#)

Gwelliant 2. [Paul Davies \(Preseli Sir Benfro\)](#):

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i roi cynlluniau gweithredu effeithiol ar waith yn ymwneud â'r cynnydd o ran cydraddoldeb yng Nghymru, gydag amcanion a chanlyniadau mesuradwy wedi'u creu ar gyfer pob adroddiad yn y dyfodol.

8 Cyfnod pleidleisio

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 1 Chwefror
2017

Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 26 Ionawr 2017 i'w hateb ar 31 Ionawr 2017

R – Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.

W – Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

(Dangosir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl cwestiwn 2.

Gofyn i [Brif Weinidog Cymru](#)

1. [Janet Finch-Saunders \(Aberconwy\)](#): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y gwasanaeth iechyd yng Ngogledd Cymru? OAQ(5)0407(FM)
2. [David Melding \(Canol De Cymru\)](#): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddarpariaeth gwasanaethau iechyd meddwl pwrpasol i gyn-filwyr y lluoedd arfog? OAQ(5)0408(FM)
3. [John Griffiths \(Dwyrain Casnewydd\)](#): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gynnydd Llywodraeth Cymru o ran sicrhau bod pobl Cymru yn gwneud mwy o ymarfer corff? OAQ(5)0420(FM)
4. [Steffan Lewis \(Dwyrain De Cymru\)](#): Beth yw goblygiadau cynllun diwydiannol Llywodraeth y DU ar Gymru? OAQ(5)0406(FM)
5. [Hannah Blythyn \(Delyn\)](#): Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o gau banciau yng Ngogledd Cymru? OAQ(5)0413(FM)
6. [Dawn Bowden \(Merthyr Tudful a Rhymni\)](#): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gymorth i ficrofusnesau yng Nghymru? OAQ(5)0417(FM)

7. [Suzy Davies \(Gorllewin De Cymru\)](#): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am adolygiad Hendry? OAQ(5)0412(FM)
8. [Huw Irranca-Davies \(Ogwr\)](#): Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael ynghylch Morlyn Llanw Bae Abertawe ers cyhoeddi adroddiad Hendry? OAQ(5)0409(FM)
9. [Hefin David \(Caerffili\)](#): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gydnabyddiaeth a roddwyd i'r rhai a wnaeth eu gwasanaeth cenedlaethol fel Bechgyn Bevin yn ystod yr Ail Ryfel Byd ac wedi hynny? OAQ(5)0418(FM)
10. [Angela Burns \(Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro\)](#): Pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru i reoli costau rhentu yng Nghymru? OAQ(5)0414(FM)
11. [Mike Hedges \(Dwyrain Abertawe\)](#): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am wella ffyniant economaidd Dinas-ranbarth Bae Abertawe? OAQ(5)0404(FM)
12. [Jenny Rathbone \(Canol Caerdydd\)](#): Pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru i gyflwyno deddfwriaeth i orfodi isafswm pris ar alcohol? OAQ(5)0416(FM)
13. [Neil Hamilton \(Canolbarth a Gorllewin Cymru\)](#): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y gofal iechyd y tu allan i oriau sydd ar gael yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru? OAQ(5)0411(FM)
14. [Dai Lloyd \(Gorllewin De Cymru\)](#): Pa asesiad y mae'r Prif Weinidog wedi'i wneud o ddarpariaeth bancio lleol? OAQ(5)0410(FM)
15. [Sian Gwenllian \(Arfon\)](#): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am bwysigrwydd cydweithio rhanbarthol rhwng cynghorau sir er mwyn cryfhau'r Gymraeg? OAQ(5)0405(FM)W

Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

Mae agendâu'r Cyfarfod Llawn yn cael eu cyhoeddi wythnos cyn pob cyfarfod, ac maent i'w gweld ar [dudalen y Cyfarfod Llawn](#)

Dydd Mawrth 7 Chwefror 2017

Busnes y Llywodraeth

- Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon: Cynllun Cyflenwi ar gyfer Cyflyrau ar y Galon (45 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Sgiliau a Gwyddoniaeth: Menter Ymchwil Busnesau Bach (45 munud)
- Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant: Gweithio Gyda'n Gilydd i Greu Cymunedau Mwy Diogel (45 munud)
- Dadl: "Sicrhau Dyfodol Cymru": Trefniadau pontio ar gyfer symud o aelodaeth o'r Undeb Ewropeaidd i berthynas newydd ag Ewrop (120 munud)

Dydd Mercher 8 Chwefror 2017

Busnes y Llywodraeth

- Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg (45 munud)

Busnes y Cynulliad

- Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad (30 munud)
- Datganiadau 90 Eiliad (5 munud)
- Dadl ar Gynigion Deddfwriaethol Aelodau (30 munud)
- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar ei ymchwiliad i Waith Ieuenctid (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (120 munud)
- Dadl Fer - Lynne Neagle (Torfaen) (30 munud)

Dydd Mawrth 14 Chwefror 2017

Busnes y Llywodraeth

- Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg: Sefydlu'r Gwaddol Cenedlaethol ar gyfer Cerddoriaeth (45 munud)
- Gorchymyn Cyngor y Gweithlu Addysg (Achredu Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon) (Swyddogaethau Ychwanegol) (Cymru) 2017 (15 munud)
- Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol a Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol y Bil Addysg Uwch ac Ymchwil (15 munud)
- Dadl: Morlynnoedd Llanw (60 munud)
- Dadl: Setliad yr Heddlu 2017–18 (30 munud)

Dydd Mercher 15 Chwefror 2017

Busnes y Llywodraeth

- Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol (45 munud)
- Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol (45 munud)

Busnes y Cynulliad

- Datganiadau 90 Eiliad (5 munud)
- Datganiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu: Y Darlun Mawr, Safbwyntiau cychwynnol ar ddarlledu yng Nghymru (30 munud)
- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau ar ei waith craffu ar ôl deddfu ar Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 (60 munud)
- Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)

NNDM6204

Hannah Blythyn (Delyn)

Jeremy Miles (Castell-nedd)

Suzy Davies (Gorllewin De Cymru)

Adam Price (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi bod mis Chwefror yn Fis Hanes LGBT, ac yn gyfle blynyddol i hyrwyddo amrywiaeth a chydraddoldeb ledled Cymru.
 2. Yn nodi ymhellach gyfraniad pobl LGBT a mwy i'n cymunedau a'n gwlad.
 3. Yn cydnabod y rôl a chwaraeir gan eiconau LGBT a chyfeillion heterorywiol yng Nghymru, fel y dangosir gan yr arddangosfa eiconau a chyfeillion LGBT yn y Senedd y mis hwn.
 4. Yn croesawu'r cynnydd a wnaed yn y degawdau diwethaf o ran derbyn LGBT ac o ran eu hawliau.
 5. Yn credu bod angen bod yn effro i sicrhau bod hawliau LGBT a mwy yn cael eu diogelu.
 6. Yn cymryd yr awenau o ran parhau i hybu cydraddoldeb a herio gwahaniaethu ac anghydfod, gan sicrhau bod Cymru yn genedl groesawgar i bobl LGBT a mwy.
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
 - Dadl Fer – Caroline Jones (Gorllewin De Cymru) (30 munud)

Toriad: Dydd Llun 20 Chwefror 2017 – Dydd Sul 26 Chwefror 2017

Dydd Mawrth 28 Chwefror 2017

Busnes y Llywodraeth

- Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg: Adolygiad Addysg ac Argymhellion y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (45 munud)
- Dadl: Egwyddorion Cyffredinol Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru) (60 munud)
- Cynnig i gymeradwyo'r Penderfyniad Ariannol ynghylch Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru) (5 munud)

Dydd Mawrth 1 Mawrth 2017

Busnes y Llywodraeth

- Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith (45 munud)
- Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon (45 munud)

Busnes y Cynulliad

- Datganiadau 90 Eiliad (5 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Annibyniaeth y Deyrnas Unedig (60 munud)
- Dadl Fer – Jayne Bryant (Gorllewin Casnewydd) (30 munud)